



Sali a Chaniad y Gylfinir







Y Gylfinir Ewrasiaidd yw un o'r adar mwyaf eiconig ond hefyd un o'r rhywogaethau mwyaf prin yng Nghymru.



Y Gylfinir yw aderyn hirgoes mwyaf y DU gyda phig hir, grom a galwad unigryw. Mae i'w weld fel arfer yn y rhostiroedd, glaswelltiroedd gwlyb a phorfeydd yr ucheldir, ar un adeg roedd y gylfinir yn gyffredin ar draws ucheldir a ffermdir Cymru ond mae'r niferoedd wedi gostwng.

Er eu bod yn dodwy pedwar wy bob blwyddyn, dim ond tua un cyw maen nhw'n llwyddo i'w fagu bob pedair blynedd. Mae'r nifer yma yn rhy isel i gadw'r boblogaeth yn sefydlog. Fel mae pethau'n mynd ar hyn o bryd, bydd y Gylfinirod wedi diflannu yng Nghymru erbyn 2033.

Bydd y llyfr hwn yn mynd â chi ar daith gyda Sali a'i Thaid wrth iddynt gydweithio i helpu'r gylfinirod ar eu fferm. Ar hyd y ffordd, byddwch yn canfod pam bod yr adar hyn mor bwysig, a sut gallwch chi wneud gwahaniaeth hefyd!

Swyddog Gylfinirod a Phobl, Sam Kenyon



"Clochdar, clochdar!"

Gafaelodd Sali ym mraich ei Thaid wrth iddynt
wrando ar alwad y gylfinir yn atseinio yn y gwynt.

"Tymor arall wedi mynd heibio...a dim ond un cyw
bach wedi gadael y nyth Sali fach." meddai Taid yn
dawel.

"Hoffwn i weld mwy." atebodd Sali. "Ond o leiaf bod
un cyw bach wedi tyfu'n gryf a hedfan i ffwrdd."





"Mae o wedi wynebu llawer o beryglon yn barod."
meddai Taid. "Ond mae o ar ei ffordd rŵan. Os ydi
o'n lwcus, bydd bywyd hir ac iach o'i flaen."

Fe wylion nhw'r gylfinir yn codi i'r awyr, ei blu brown,
brith yn disgleirio yn haul diwedd yr haf, gyda chysgod
ei big grom yn weladwy yn erbyn yr awyr las.





Wrth i'r hydref gyrraedd, dawnsiodd y dail yn yr awel,
gan ddisgyn oddi ar y coed, a throdd y nosweithiau'n
oer a ffres.

"Mae hi'n dawel iawn heb ganiad Pegi ar y fferm."
ochneidiodd Sali un bore.

"Rŵan bod y cynhaeaf wedi dod i ben," meddai Taid
gan gau'r zip ar ei got rhag yr oerfel, "beth am i ni
fynd am dro i'r traeth?"



Roedd Sali wedi cyffroi'n lân. "A hufen iâ?"

"Gawn ni weld." chwarddodd Taid. "Dos i ddweud wrth
dy Fam i le rydan ni'n mynd."





Rhedodd Sali i'r ffermdy i ddweud wrth ei Mam
a'i Thad.



Roedd hi'n treulio llawer o amser gyda'i Thaid. Roedd
hi wrth ei bodd gyda'i straeon, y ffordd roedd o'n
gofalu am anifeiliaid a sut roedd yn sylwi ar fywyd
gwyllt ar y fferm bob amser, o'r gwenoliaid i'r
tylluanod yn yr hen goed.





Ger y môr, roedd afon o ddŵr gloyw yn ymlwybro
drwy lannau meddal o dywod a mwd.

Oedodd Sali, gan afael yn ei chôn hufen iâ, wrth
i ganiad unigryw atseinio yn yr awel; roedd mor
gyfarwydd, fe wnaeth iddi neidio.

"Gwrandda!" ebychodd. "Dyna'r gylfinir! Wyt ti'n meddwl
mai Pegi Pig Hir a'i chyw sydd yna?"

"Efallai!" Gwenodd Taid, gan archwilio'r gorwel.





Ymysg yr haid o adar hirgoes, safodd aderyn tal yn
falch, ei blu brown, brith yn disgleirio, ei big hir, grom
yn nodweddiadol.

"Dyna hi, dw i'n sicr!" sibrydodd Sali. "Dyna Pegi Pig
Hir!"

"Ac mae ei chyw gyda hi hefyd!" meddai Taid.





Gwenodd Sali yn gyffrous. "Blwyddyn nesaf, a fydd na lawer o ylfinirod gartref?"

"Mae nifer o'r adar hyn yn dod o wledydd pell iawn," meddai Taid. "Mae'n nhw'n gorffwys yma i fwydo ar fwydod a berdys yn y mwd. Ond ni fydd y mwyafrif yn teithio i fyny i'n bryniau ni i nythu fel Pegi, sy'n ein gwneud ni'n lwcus o'i chael hi."



Llyfodd Sali weddill yr hufen iâ gan fyfyrrio.

Roedd Pegi wedi dychwelyd i Fferm y Nant ers cyn
cof. Doedd hi methu dychmygu cefn gwlad hebddi.





Cyrhaeddodd y gaeaf. Gorchuddiwyd y caeau a'r bryniau
mewn blanced o rew. Gyrrodd Taid ei dractor ar y
buarth, gyda llwyth o fwd o'i olwynion yn cael ei
daflu i'r awyr.

Roedd Sali'n aros. "Taid," gofynnodd, "oes yna unrhyw
beth allwn ni ei wneud i helpu mwy o ylfinirod i
nythu yma flwyddyn nesaf?"



Oedodd Taid. "Mmm" meddai yn chwareus. "Gad i mi
weld..."

Roedd gan Daid syniadau da bob amser.





"Beth am i mi lanhau'r hen bwl dŵr ac ychwanegu rhai pyllau bas?" meddai Taid, gan lywio'r tractor ar draws y cae. "Mae angen tir tamp ar y gylfinirod i fwydo. Yna, galla i docio'r brwyn a'r gwrychoedd. Fel yna, ni fydd y llwynogod a'r brain yn gallu llechu a chymryd yr wyau a'r cywion. Gallwn blannu rhagor o flodau gwyllt hefyd!"



Eisteddodd Sali wrth ei ymyl yn y tractor, a oedd yn bownsio'n ysgafn wrth iddynt weithio. Roedd hi wrth ei bodd yn gweld y newid yn y tymhorau, a bod gyda ei Thaid wrth iddo ofalu am, a gweithio ar y tir.





Rhai dyddiau yn ddiweddarach, yn ei hysgol, dyweddod athro Sali, "Rydym angen prosiect newydd."

"Beth am rywbeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd?" galwodd un plentyn.

Cododd Sali ei llaw. "Mae angen ein help ar y gylfinirod! Mae Taid yn dweud ei bod hi'n anodd i'r gylfinirod fagu eu cywion yn y caeau'r dyddiau hyn. Maen nhw'n ei chael hi'n anodd, a dyna pam nad ydym ni'n gweld gymaint ag o'r blaen."



"Gylfinirod..." gwenodd yr athro. "Beth arall rydym ni'n ei wybod amdanynt?"



"Mae'r enw," meddai yn bachgen, "yn disgrifio eu pigau hir."

"Mae fy nhad i'n eu galw'n Chwibanwr" ychwanegodd un arall, "oherwydd eu caniad sy'n chwibanu!"

"Mae fy Nain yn dweud Aderyn y Glaw" meddai un ferch, "oherwydd bod y gylfinirod yn canu'n groch pan mae glaw ar y ffordd!"



"Gwych!" meddai'r athro. "Y Gylfinir amdani!"

Gwenodd Sali, byddai hi'n galw ei gylfinir hi yn Pegi Pig Hir a oedd yn ei disgrifio i'r dim.



Roedd gan y plant lawer o syniadau da am y prosiect
ar y gylfinirod.

"Gallwn roi arwyddion ar y llwybrau troed i atgoffa
pobl i gadw eu cŵn ar dennyn" awgrymodd un. "Byddai
hyn yn diogelu eu nythod ar y llawr a gwarchod yr
adar rhag y cŵn!"

Roedd y syniadau'n llifo yn gyflym.





"Gallai gof greu cerfluniau o'r gylfinir ar y gatiau i atgoffa pobl i fod yn ofalus ac aros ar y llwybr."

"Gallwn blannu dôl yn yr ysgol fel bod mwy o bryfed i'r gylfinirod fwydo arnynt!"

"A gall y pobydd bobi bisgedi siâp gylfinir er mwyn i ni eu gwerthu yn y ffair haf, fel bod pawb yn dysgu am ein prosiect!"



"Gwych!" Well i ni ddechrau arni!" meddai'r athro gyda gwên.





Wrth i'r gaeaf droi yn wanwyn, roedd cennin pedr yn
blaguro o amgylch y fferm, a'r nosweithiau'n ymestyn.
Eisteddodd Sali wrth fwrdd mawr cegin Taid, yn
brysur yn addurno bisgedi siâp gylfinir.

Yn sydyn, clywodd ganiad cyfarwydd tu allan,
"Clochdar, clochdar!" Neidiodd i fyny a rhedeg tua'r
fffenest.





"Taid! "Maen nhw yn ôl!" llefodd. Gyda'i gilydd, fe frysion nhw allan i'r caeau.

Glaniodd dau ylfenir ger y defaid oedd yn pori.

"Dyna Pegi, dw i'n siŵr!" meddai Sali, gan wyllo'r pig hir yn palu'n ddwfn i mewn i'r tir. "Ac mae ganddi bartner!"





Cyn hir trodd y gwrychoedd yn wyn gyda'r blodau ac
roedd caniadau'r ddau aderyn i'w clywed ym mhobman.

"Gydag ychydig o lwc, byddant eisiau nythu'n fuan, yn
yr un cae â llynedd mwy na thebyg." meddai Taid.

"Mae'r glaswellt gwlyb sy'n drwm gyda gwlith, yn
eu helpu i ganfod bwyd yn hawdd, ac mae'r darnau
agored sydd wedi cael eu bwyta gan y defaid yn
gallu bod yn ddefnyddiol i weld unrhyw ysglyfaethwyr
chwim."





Dros yr wythnosau nesaf, cerddodd Sali'n ysgafndroed o amgylch ffin y cae, ond ni welodd unrhyw nyth. "Taid...pam fod y nythod mor anodd eu canfod?" meddylodd.

"Maen nhw'n cuddio mewn pyllau bach yn y tir." esboniodd Taid. "Mae eu plu brown, brith yn eu helpu i guddio'n berffaith rhwng y brwyni a'r glaswellt. Yn ôl yr hanes, roedd Sant Beuno'n bendithio'r gylfinirod i'w helpu i gadw eu nythod yn ddiogel."

"Roedd Sant Beuno'n ddoeth iawn." meddai Sali'n dawel.



"Rydw i'n meddwl y dylwn ni osod ffens yn y rhan honno o'r cae i'w gwarchod." meddai Taid gyda gwên wybodus.





Fel 'roedd Taid wedi rhagweld, fe nythodd Pegi yn agos iawn i'r man y gwnaeth hi llynedd. Cawsant gipolwg o Pegi o bryd i'w gilydd, a oedd wedi dod yn fwy cyfrinachol a thawel. Fe wylion nhw ei phartner yn symud yn araf ac yn ofalus drwy'r glaswellt, cyn diflannu i mewn i frwyni hir a gwyrdd.

"Dw i'n meddwl fod ganddynt nyth!" meddai Taid, â'i lais yn llawn cyffro.





Yn hwyr un nos, roedd Taid yn gwylio ei braidd.
Yn sydyn, clywodd ganiad brys Pegi, chwibaniad llym,
gwyllt yn atseinio yn y gwynt. Daliodd ei anadl, gan
obeithio bod y nyth yn ddiogel.



Roedd hi'n amser peryglus i Pegi yn ystod y nos,
ar ei phen ei hun ar y nyth pan roedd ei phartner
yn gorffwys gerllaw ar y rhostir.





Yn y bore, fe syllon nhw'n ofalus dros y clawdd isel i mewn i'r cae. Roedd hi'n ymddangos bod y nyth dal yno, a phopeth wedi setlo ac yn dawel.



"Beth am i ni beidio tori'r ddôl nes mae'r cywion wedi gadael y nyth?" meddai Taid.

"Fydd gen ti ddigon o borthiant i'r gwartheg a'r defaid?" gofynnodd Sali.

"Bydd tad, Sali fach." atebodd Taid gyda gwên gysurus.





Ymddangosodd yr haf ar draws y dyffryn. Roedd
yr ŵyn yn tyfu'n gyflym ac roedd arogl hyfryd y
glaswellt oedd newydd ei dorri yn dod o'r caeau tu
ôl i'r nyth.



Roedd blodau'n blaguro o amgylch y pwll dŵr.
Rhuthrodd chwilod o amgylch traed Sali wrth iddi
gerdded. Roedd ceiliogod rhedyn yn neidio yn yr
awyr, a gweoedd pryfed cop arian yn ymestyn rhwng
y brwyni, gan ddisgleirio yn yr haul.





Yna, ar fore cynnes ym mis Gorffennaf, rhuthrodd Sali i mewn i'r ffermdy. "Taid! Taid! Yn gyflym! Dewch i weld! Mae 'na gywion!"

Bryson nhw i'w man cuddio arferol wrth y clawdd. Roedd tri chyw bach yn cerdded yn simsan ar goesau hir, ond fe lwyddon nhw i ddilyn Pegi, a ddangoson nhw sut i brocio'r glaswellt gyda'u pigau i ganfod pryfed.

"Sbia, mae digonedd o fwyd iddynt." meddai Taid.
"Mae'n ddechrau da!"





Gwyliodd Sali o'i man cuddio mor aml â phosib.
Roedd hi wrth ei bodd yn gweld y cywion yn tyfu'n
gryfach.

Un prynhawn, hedfanodd gysgod tywyll uwchben...
bwncath yn cylchu'n uchel. Yna, mewn fflach o blu
a sgrechiadau, ymddangosodd bartner Pegi o'r ddôl.
Gwibiodd a phlymiodd, gan erlid y bwncath.



Funud yn ddiweddarach, ymddangosodd ben un o'r
cywion uwchben y glaswellt. Anadlodd Sali'n ddwfn, ni
sylwodd ei bod wedi bod yn dal ei anadl!





Wrth i amser basio, tyfodd y cywion yn gyflym.

"Edrych, Taid! Mae'r cyw cyntaf yn hedfan!" Gwenodd Sali fel giât wrth iddi ei wyllo yn codi i'r awyr, ei adenydd ar led ac yn gryf. Roedd hi'n hoffi eu gwyllo'n bwydo, yn archwilio ac yn tyfu'n gryfach bob dydd.

"Ddim yn hir tan y byddant yn dychwelyd i'r arfordir." meddai Taid.





Ac yn fuan, daeth yr amser. Roedd y tymor wedi newid, ac roedd hi wedi oeri. Safodd Sali a Taid ochr yn ochr, gan wyllo wrth i dri gylfinir ifanc ddechrau hedfan i'r awyr.

"Rydym wedi gwneud yn well eleni." meddai Taid yn falch.

"Efallai y cawn ni fwy y flwyddyn nesaf!" atebodd Sali. "Byddai'n wych clywed caniad y gylfinir mewn rhai o'r caeau eraill hefyd."



Gwenodd Taid yn gynnes. "Byddai hynny'n arbennig iawn Sali fach."





Ynglŷn â Chysylltu Gylfinir Cymru

Mae Cysylltu Gylfinir Cymru yn brosiect cadwraeth sy'n gweithio i warchod y Gylfinir Ewrasiaidd prin yng Nghymru.

Mae'r tîm yn helpu i ofalu am y gylfinirod gan gadw eu nythod yn ddiogel, cynnal a chadw eu cynefinoedd, a chefnogi ffermwyr, rheolwyr tir a gwirfoddolwyr sydd eisiau gwneud gwahaniaeth. Maent yn rhannu gwybodaeth a sgiliau gyda chymunedau lleol, fel bod mwy o bobl yn deall ac yn gofalu am yr adar anhygoel hyn.

Drwy gydweithio, gallwn helpu'r gylfinirod i oroesi a chlywed eu galwadau unigryw yng Nghymru am genedlaethau i ddod.



Gary Jones Wildlife Photography







Mae Sali wrth ei bodd yn clywed
galwad unigryw y gylfinir ar fferm ei
Thaid. Ond bob gwanwyn, mae llai a llai o
ylfinirod yn dychwelyd. Gyda chymorth Taid,
mae Sali'n dysgu sut y gall newidiadau
bach wneud gwahaniaeth mawr, a gyda'i
gilydd maent yn ceisio helpu mwy o
gywion i hedfan bob blwyddyn.

Ysgrifennwyd gan Peter Evans
Wedi'i ddarlunio gan Jillian Howe

Crëwyd y stori gan ddisgyblion Ysgol Caer Drewyn,
Ysgol y Waun ac Ysgol Bro Dyfrdwy, ynghyd â'r
storïwr Fiona Collins.

Crëwyd y lluniau gan ddisgyblion Ysgol Bro Elwern ac
Ysgol Betws Gwerful Goch gan ddefnyddio collage.



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

Cedwir pob hawl.
Ni ellir ailgynhyrchu unrhyw ran o'r
cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf heb
ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Tirwedd Cenedlaethol
**Clwydian Range
and Dee Valley**
National Landscape



**Bannau
Brycheiniog**

